# Adolygiad o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru

## Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cymorth cywir

Ionawr 2024

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**











# Helo

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydym yn sicrhau bod gwasanaethau'n gwneud y pethau cywir yn y ffyrdd cywir. Os nad ydynt, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud rhywbeth am y peth.

## Am beth mae'r adroddiad hwn yn sôn

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn eu hardal yn derbyn gofal ac yn ddiogel. Os oes ganddynt bryderon difrifol am blentyn, gallant wneud cais i'r Llys a gofyn am Orchymyn Gofal. Mae hyn yn golygu y byddai'r plentyn yn gadael y teulu ac yn derbyn gofal.

Cyn iddynt gymryd camau Llys, dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r teulu a'i gefnogi i aros gyda'i gilydd os yn bosibl. Mae hyn wedi'i nodi yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

**Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2023 gwnaethom wirio a oedd awdurdodau lleol yn gwneud hyn, ac yn cefnogi teuluoedd yn y ffyrdd cywir.**

## Proses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)

Mae'r broses PLO yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn cyn gwneud cais i'r Llys. Mae'n golygu bod yn rhaid iddynt roi cyfleoedd i rieni:

- cael cymorth gan wasanaethau
- gwella eu rhianta a chymryd y camau sydd eu hangen er mwyn i'r plentyn allu aros gyda'r teulu

ℹ Os yw Gweithiwr Cymdeithasol yn credu bod plentyn mewn perygl uniongyrchol, gall fynd yn syth i'r Llys a gwneud cais am Orchymyn Gofal. Nid oes rhaid iddo ddilyn y PLO.



Mae'r adroddiad hwn yn sôn:

- mwy am y broses PLO
- mwy am yr adolygiad
- Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

# Ynglŷn â'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)

## 1 Y llythyr

Pan fo Awdurdod Lleol yn ystyried mynd i'r Llys, mae'n rhaid iddo anfon llythyr at y teulu. Mae'r llythyr yn egluro beth yw'r pryderon, ac yn gwahodd y teulu i gyfarfod â Gweithwyr Cymdeithasol, cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

## 2 Y cyfarfod

Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle i bawb weithio gyda'i gilydd a:

- sicrhau bod rhieni'n deall y pryderon
- egluro'n glir pa newidiadau y mae'n rhaid i'r rhieni eu gwneud
- esbonio pa asesiadau y mae'r Awdurdod Lleol am eu gwneud a pham
- cytuno pa gymorth y gall y teulu ei ddisgwyl a'r hyn a ddisgwylir ganddo
- rhoi cyfle i'r plentyn siarad am ei brofiad a'r hyn y mae ei eisiau

Gall rhieni ddod â rhywun i'r cyfarfod i'w helpu i ddeall beth sy'n digwydd.

## 3 Cymorth i newid

Bydd cynllun cymorth yn cael ei gytuno fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn cydweithio â'r rhieni i'w helpu i wella bywyd teuluol a chadw'r plentyn yn ddiogel.

## 4 Penderfyniadau terfynol

Ar ôl 3 mis, os yw pethau ym mywyd y plentyn wedi gwella, yna ni chymerir unrhyw gamau Llys. Bydd y teulu yn parhau i gael cymorth a gall y plentyn aros gyda'i rieni.

Os nad yw pethau wedi gwella, bydd yr Awdurdod Lleol yn dwyn achos Llys ac yn gwneud cais am Orchymyn Gofal.



# Ynglŷn â'r adolygiad

**Roedd gan yr adolygiad hwn ddwy ran.**

**Rhan 1** — Rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022, gwnaethom gynnal arolwg a gofyn i awdurdodau lleol sut y gwnaethant ddilyn y broses PLO. Cymerodd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ran.

**Rhan 2** — Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023 buom yn edrych ar gofnodion gofal cymdeithasol pedwar awdurdod lleol:

- Castell-nedd Port Talbot
- Torfaen
- Rhondda Cynon Taf
- Conwy

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth fel:

- nodiadau asesu, cynlluniau cymorth, cofnodion achos a chofnodion Llys
- canllawiau a fframweithiau Awdurdodau Lleol am y PLO

Gwnaethom siarad â:

- gweithwyr proffesiynol a staff o awdurdodau lleol
- gweithwyr proffesiynol o'r Llysoedd a gwasanaethau cyfreithiol
- Cynghorwyr CAFCASS sy'n cefnogi teuluoedd sy'n mynd i'r Llys
- plant a phobl ifanc
- rhieni a gofalwyr



## Ar adeg yr adolygiad

Roedd **7,042** o blant yn derbyn gofal yng Nghymru.

Fe wnaeth **1,716** o blant ddechrau derbyn gofal yn ystod ein hadolygiad.

O'r **1,716** o blant aeth **863** drwy'r broses PLO.

# Ein prif ganfyddiadau

- **Mae pob awdurdod lleol yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cymryd camau Llys pan fo angen.**
- **Mae gan awdurdodau lleol systemau da i wirio a chadw plant yn ddiogel.**

Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod y **broses PLO:**

- yn helpu gwasanaethau i gamu i'r adwy yn gynnar a chadw teuluoedd gyda'i gilydd
- yn helpu gwasanaethau i ddylunio cymorth fel ei fod yn diwallu anghenion y teulu mewn ffyrdd gwell
- yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd
- yn helpu pawb i rannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir
- yn helpu gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau clir
- yn gwella bywyd teuluol i'r plentyn
- yn lleihau nifer yr amseroedd y mae angen iddynt gymryd camau Llys

**Hawliau plant**

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Dywedodd awdurdodau lleol fod plant a phobl ifanc:

- wedi cael gwybod am eu hawliau
- yn cymryd rhan ac yn cael eu clywed
- wedi cael gwybod y gallent gael eiriolwr

**Eiriolwr** — Rhywun sy'n gwrando ar yr hyn rydych chi ei eisiau/yn ei feddwl ac yna'n rhannu hyn gyda'ch teulu a gweithwyr proffesiynol, fel eich gweithiwr cymdeithasol, athro, nyrsys ac ati.

# Prif faterion

- Nid oedd gan rai teuluoedd yr un Gweithiwr Cymdeithasol trwy gydol y broses PLO. Fe wnaeth hyn effeithio ar eu cymorth a'u canlyniadau.

## Gwybodaeth

- Nid oes digon o wybodaeth sy'n esbonio'r broses PLO yn glir. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd:
  - angen gwybodaeth a chyngor hawdd ei ddeall
  - angen cael gwybod y gallant gael eiriolwr o'r cychwyn cyntaf
  - angen mwy o amser i gymryd rhan a mynegi eu barn mewn penderfyniadau

## Galw ar wasanaethau

- Mae bylchau yn y gweithlu ac mae angen mwy o Weithwyr Cymdeithasol ar draws Cymru.
- Mae nifer y teuluoedd sydd angen cymorth yn cynyddu.



# Gofynnon ni: A oes systemau clir y mae pawb yn eu dilyn ar gyfer y broses PLO?

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod:

### Awdurdodau lleol:

- yn rhoi plant yn gyntaf a sicrhau eu bod yn ddiogel
- yn sicrhau bod ganddynt systemau i helpu gwasanaethau i ddilyn y broses PLO
- yn cynnwys plant a phobl ifanc ac yn gwrando arnynt
- yn gwybod sut i olrhain ac adolygu achosion
- yn sicrhau bod ganddynt reolwyr rheolwyr da sy'n gwirio ansawdd y gwaith ac yn rhoi cymorth i staff
- yn sicrhau bod ganddynt systemau TG sy'n olrhain plant a theuluoedd drwy bob cam o'r broses PLO

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ganllawiau PLO ar gyfer staff.

### Gweithwyr Cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a staff:

- yn gwybod sut i wneud penderfyniadau ar bob cam o'r broses PLO
- yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, a chamu i'r adwy yn gynnar i atal achos Llys os yn bosibl
- yn adolygu asesiadau, cynlluniau a nodi unrhyw fylchau mewn cefnogaeth
- yn gwerthfawrogi'r broses PLO a'r amser y mae'n ei roi iddynt weithio gyda theuluoedd
- yn cynnwys a gwrando ar brofiadau a safbwyntiau bywyd plant
- yn edrych ar yr holl wybodaeth am fywyd y plentyn a'i defnyddio i wneud y penderfyniadau cywir
- yn deall risgiau a gwybod sut i'w lleihau
- yn gwybod pryd a sut i wneud atgyfeiriad os byddant yn credu bod plentyn mewn perygl
- yn gwybod sut i ddylunio cymorth fel ei fod yn diwallu anghenion y teulu yn y ffyrdd cywir
- yn gwneud penderfyniadau clir ar yr adegau cywir

Mae gan lawer o Weithwyr Cymdeithasol berthynas dda gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae teuluoedd yn ymddiried ynddynt.

### Asesiadau gofal a chymorth

Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau yn glir. Roedd y rhai gorau yn:

- nodi'r cryfderau oedd gan y teulu ac adeiladu cymorth o gwmpas hynny
- sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn
- cynnwys barn y teulu
- cael eu gwirio a'u diweddaru'n rheolaidd



## Rhai problemau

- Nid yw rhai plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu hasesu'n ddigon cyflym. Mae hyn yn oedi cymorth.
- Fe wnaeth rhai teuluoedd newid Gweithiwr Cymdeithasol yn ystod y broses PLO.
- Mae angen mwy o wybodaeth ar blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae angen iddi fod yn hawdd ei deall a diwallu anghenion pobl.
- Dylai rhieni ag anghenion dysgu gael mwy o gymorth.

**Gofynnon ni:** # A oes systemau i helpu gwasanaethau i rannu gwybodaeth a gweithio gyda rhieni fel y gallant wella?

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod:

### Awdurdodau lleol:

- yn rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf a sicrhau ei fod yn ddiogel
- yn gweithredu'n gyflym pan fydd yn credu bod plentyn mewn perygl
- yn gweithio gyda thimau a sefydliadau cyfreithiol
- yn sicrhau bod gan deuluoedd gymorth i newid
- yn gweithredu os nad yw pethau'n gwella
- yn sicrhau bod teuluoedd yn deall y broses PLO a'r hyn y gallant ei ddisgwyl
- yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu llythyr ac yn cael eu gwahodd i gyfarfod
- yn hyfforddi eu staff ar y broses PLO

### Gweithwyr Cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a staff:

- yn gweithio'n dda gyda'i gilydd
- yn gweithredu cyn gynted â phosibl i gefnogi teuluoedd
- yn rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir
- yn sicrhau bod plant yn ddiogel tra bo'r teulu'n cael cymorth i wella
- yn defnyddio gwybodaeth am fywyd y plentyn i wneud y penderfyniadau cywir
- yn cysylltu rhieni â chymorth a gwasanaethau eraill yn y gymuned
- yn sicrhau bod gan deuluoedd gymorth a chyngor i newid
- yn parhau i gefnogi teuluoedd hyd yn oed os bydd camau cyfreithiol yn dod i ben

Fel arfer, mae gan deuluoedd dri mis i wella. Ond mae pob awdurdod lleol yn rhoi amser ychwanegol os ydyn nhw'n gallu gweld bod rhieni'n ceisio gwella.



## Rhai problemau

- Weithiau ni chaiff gwybodaeth ei rhannu'n ddigon cyflym ac mae hynny'n oedi cymorth.
- Mae angen mwy o hyfforddiant ar rai gweithwyr proffesiynol ar sut i gadw plant yn ddiogel yn ystod y broses PLO.
- Mae angen gwella gwybodaeth am y broses PLO.

# Gofynnon ni: A yw cymorth yn helpu plant a phobl ifanc i gael cartref sefydlog a chyflawni canlyniadau da?

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod:

### Awdurdodau lleol:

- yn cefnogi plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd pan fydd yn ddiogel
- yn peidio â chymryd camau Llys oni bai bod hynny'n angenrheidiol
- yn adolygu'r cymorth yn rheolaidd
- yn gwneud penderfyniadau ar yr adegau cywir
- yn egluro penderfyniadau i deuluoedd mewn ffyrdd clir
- yn rhoi'r cymorth gorau posibl i deuluoedd, gan gynnwys cymorth cymunedol
- yn sicrhau bod staff yn cael cyngor a hyfforddiant cyfreithiol ar y broses PLO
- yn gweithio gyda CAFCASS Cymru i gefnogi rhieni

### Gweithwyr Cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a staff:

- yn deall bod cartref sefydlog, cariadus yn bwysig ac yn camu i mewn yn gyflym i gefnogi plant i gael hynny
- yn sicrhau bod gan blant y cynlluniau gofal a chymorth gorau
- yn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn rhoi digon o amser i deuluoedd newid
- yn sicrhau bod teuluoedd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau
- yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth
- yn sicrhau bod asesiadau'n digwydd yn gyflym fel nad oes oedi o ran cymorth
- yn edrych ar bob rhan o fywyd y plentyn gan gynnwys y teulu ehangach, i weld pa gymorth arall a allai helpu
- yn sicrhau bod cymorth yn cael ei wirio a'i diweddaru

### Plant heb eu geni mewn perygl

Weithiau mae plentyn heb ei eni mewn perygl o niwed gan riant.

Mae pob awdurdod lleol yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod babanod heb eu geni sydd mewn perygl yn cael asesiad cyn geni.

## Rhai problemau

- Weithiau ni chaiff gwybodaeth ei rhannu'n ddigon cyflym ac mae hynny'n oedi cymorth.
- Weithiau mae llais plant iau ar goll o'r asesiadau.
- Gall fod yn anodd gweld a yw baban heb ei eni mewn perygl. Mae angen i rai awdurdodau lleol wneud hyn yn well.



Gofynnon ni: **Ydych chi'n hyrwyddo hawliau plant a llais y plentyn?**

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod:

### Awdurdodau lleol:

- yn hyrwyddo hawliau plant
- yn cynnwys a gwrando ar blant a phobl ifanc
- yn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn a'i farn
- yn defnyddio technoleg, gan gynnwys yr ap Mind of My Own (MOMO) i gael barn plant
- yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod y gallant gael eiriolwr

### Gweithwyr Cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a staff:

- yn deall pa mor bwysig yw meithrin perthnasoedd dibynadwy â phlant a theuluoedd
- yn rhoi amser a chymorth i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau
- yn defnyddio llawer o ffyrdd creadigol i ddarganfod beth sy'n digwydd ym mywyd y plentyn a'i farn
- yn sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch ble maen nhw'n byw

### Swyddogion Adolygu Annibynnol

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwirio bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth a'r gofal gorau. Maent yn eu cynnwys yn eu hadolygiadau ac yn herio penderfyniadau am gymorth pan fo angen.

## Rhai problemau

- Weithiau nid yw safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn asesiadau nac yn cael eu defnyddio i lunio eu cynllun gofal.
- Weithiau mae llais plentyn yn mynd ar goll os yw'n rhan o deulu mawr a bod ganddo lawer o frodyr a chwiorydd.
- Mae angen mwy o gymorth ar blant a phobl ifanc anabl i gael eu clywed.



# Diolch am ddarllen hwn

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma: **arolygiaethgofal.cymru/yr-amlinelliad-cyfraith-gyhoeddus-yng-nghymru**

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, ISBN 978-1-83577-227-0
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

